Y RHWYDWAITH YMCHWIL IECHYD MEWN YSGOLION

THE SCHOOL HEALTH RESEARCH NETWORK

# Eich Plentyn ac Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion 2025

## Beth mae angen i Rieni a Gofalwyr ei wybod am Gysylltedd Data

Mae'r daflen hon yn esbonio sut gellir defnyddio atebion eich plentyn i'r arolwg mewn ymchwil, sut mae eu data'n cael ei ddiogelu, a'ch hawliau fel rhiant neu ofalwr.



Rhwydwaith Ysgolion Cymru sy'n Hybu Iechyd a Lles / Welsh Network of Health and Well-being Promoting Schools

DECIPHer

GIG Cymru NHS Wales — Iechyd Cyhoeddus Cymru / Public Health Wales

CANCER RESEARCH UK

Llywodraeth Cymru / Welsh Government

CARDIFF UNIVERSITY / PRIFYSGOL CAERDYDD

## Beth yw Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr y Rhwydwaith?

Bob dwy flynedd, mae dysgwyr sy’n mynychu ysgolion uwchradd ar draws Cymru yn cymryd rhan mewn arolwg cenedlaethol ar iechyd a lles pobl ifanc. Datblygir yr arolwg gan y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (Y Rhwydwaith) ym Mhrifysgol Caerdydd, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Cyflawnir yr arolwg gan Ipsos ar ran y Rhwydwaith.

Mae’r arolwg yn cwmpasu amrywiaeth o bynciau iechyd a lles, gan gynnwys diet a maeth, gweithgarwch corfforol, iechyd meddwl, ysmygu, alcohol a chyffuriau, bywyd ysgol a pherthnasoedd. Mae’r ymagwedd eang hon yn cyd-fynd yn dda â Dull Ysgol Gyfan Llywodraeth Cymru ar gyfer cefnogi iechyd meddwl ac iechyd emosiynol, sy’n edrych ar bob agwedd ar fywyd ysgol i helpu dysgwyr i deimlo’n dda, a’u bod yn cael eu cefnogi.

Ar ddiwedd yr arolwg, caiff dysgwyr eu gwahodd i roi caniatâd i’w hatebion gael eu defnyddio i gefnogi ymchwil cysylltedd data.

## Beth yw Ymchwil Cysylltedd Data?

Mae ymchwil cysylltedd data yn cysylltu atebion eich plentyn i’r arolwg â data arall sydd eisoes yn cael ei ddal amdanynt gan sefydliadau y gellir ymddiried ynddynt, fel y GIG a Llywodraeth Cymru. Gallai hyn gynnwys apwyntiadau ysbyty, apwyntiadau meddyg teulu a chanlyniadau TGAU.

Cyn i unrhyw ddata gael ei gysylltu, mae'n cael ei wneud yn ddienw – mae hyn yn golygu na all neb adnabod unrhyw unigolyn o'r data.

Mae'r math hwn o ymchwil yn ein helpu i ddeall mwy am iechyd a lles pobl ifanc yng Nghymru. Er enghraifft, gallwn archwilio sut mae profiadau fel bwlio yn cysylltu ag ymweliadau â meddyg teulu neu ganlyniadau arholiadau. Mae'r canfyddiadau'n helpu ysgolion a llunwyr polisi i wella'r gefnogaeth i bobl ifanc.

## Pa wybodaeth sydd ei hangen i alluogi ymchwil cysylltedd data?

I gyflawni cysylltedd data, rydym ni'n gofyn i'ch plentyn ddarparu'r canlynol:

- Eu henw.
- Eu dyddiad geni.
- Eu cod post.

Rydym hefyd yn gofyn am eu caniatâd i ddefnyddio'r wybodaeth hon i alluogi ymchwil cysylltedd data.

## Beth rydym ni'n ei wneud â'r wybodaeth hon a sut mae'n cael ei chadw'n ddiogel ac yn breifat?

Rydym ni'n cymryd preifatrwydd data o ddifri. Dyma sut byddwn ni'n diogelu gwybodaeth eich plentyn:

- Caiff manylion personol (enw, dyddiad geni a chod post) eu storio ar wahân i atebion yr arolwg, mewn ffeiliau diogel, wedi'u hamddiffyn gan gyfrinair.
- Ar gyfer pob dysgwr, caiff manylion personol eu defnyddio i greu rhif adnabod unigryw, nad yw'n datgelu pwy ydyn nhw.
- Mae'r rhif adnabod hwn yn cael ei ddefnyddio i gysylltu atebion eich plentyn i'r arolwg â data cyffredinol arall a gedwir gan SAIL, gan gysylltu'n anhysbys.
- Nid yw ymchwilwyr fyth yn gweld gwybodaeth bersonol ac ni allant adnabod unrhyw bplentyn.

Caiff manylion personol eu storio'n ddiogel a'u paru ag ymatebion dienw i'r arolwg trwy Fanc Data SAIL, y mae mynediad iddo'n cael ei reoli'n llym ac nid yw ymchwilwyr fyth yn gweld unrhyw wybodaeth adnabyddadwy.

## A all plant sy'n cymryd rhan yn yr arolwg ddewis peidio â chymryd rhan mewn ymchwil cysylltedd data?

Gall. Mae cymryd rhan mewn ymchwil cysylltedd data yn gwbl ddewisol.

Ar ddiwedd yr arolwg, gofynnir i bob plentyn a ydynt yn rhoi eu caniatâd i'w hatebion gael eu defnyddio mewn ymchwil cysylltedd data.

- Os nad yw plant yn rhoi eu caniatâd, bydd eu hatebion o hyd yn cael eu defnyddio ar gyfer mathau eraill o ymchwil ac i helpu creu adroddiad teilwredig eu hysgol, ond ni fydd yr atebion yn cael eu cysylltu ag unrhyw ymchwil arall.

- Hefyd, gall rhieni a gofalwyr dynnu'u plant yn ôl o'r ymchwil cysylltedd data trwy gysylltu â'r ysgol.

## Cymeradwyaeth Foesegol

Mae Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr y Rhwydwaith wedi cael ei adolygu a'i gymeradwyo gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol Prifysgol Caerdydd. Mae hyn yn sicrhau bod yr ymchwil yn cael ei chyflawni yn unol â'r safonau moesegol uchaf.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am gymeradwyaeth foesegol neu sut mae'r astudiaeth yn cael ei chyflawni, cysylltwch â ni ar shrn@cardiff.ac.uk.

Y RHWYDWAITH YMCHWIL IECHYD MEWN YSGOLION

THE SCHOOL HEALTH RESEARCH NETWORK

Casglu Data 2025 | 2025 Data Collection